

# Negodiadau ar ymadawiad y **DU â'r UE**

## Adroddiad Monitro Brexit

07 Ionawr 2020



Y Cynulliad

**BREXIT**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ar ymadawiad y DU â'r UE

## Adroddiad Monitro Brexit

07 Ionawr 2020

**Awduron:**

Sara Moran a Lucy Valsamidis

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6472**

E-bost: [Sara.Moran@Cynulliad.Cymru](mailto:Sara.Moran@Cynulliad.Cymru)

Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Blog: [SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)

LinkedIn: [Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru](https://www.linkedin.com/company/Ymchwil-y-Senedd)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Y Cynulliad

BREXIT

## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
Crynodeb o'r datblygiadau .....	1
<b>2. Datblygiadau ar lefel y DU .....</b>	<b>3</b>
Canlyniadau'r Etholiad Cyffredinol.....	3
Araith y Frenhines a Deddfwriaeth Brexit.....	3
Bil y Cytundeb Ymadael .....	4
Penodi Simon Hart yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru .....	5
Achos llys yn herio dilysrwydd y Cytundeb Ymadael.....	5
<b>3. Datblygiadau yn yr UE .....</b>	<b>6</b>
Comisiwn newydd yr UE:.....	6
Comisiynydd y DU:.....	6
Cyfarfod diweddaraf Cyngor yr UE .....	7
Masnach y DU-UE.....	7
Masnach yr UE .....	8
Diwygio'r UE: Cynhadledd ar Ddyfodol Ewrop .....	9

## 4. Datblygiadau yng Nghymru..... 10

Bil y Cytundeb Ymadael .....	10
Deddfwriaeth Brexit arall.....	11
Y Cytundeb Ymadael Diwygiedig - Goblygiadau i Gymru .....	11
Cytundebau rhyngwladol .....	13
Strategaeth rhyngwladol Llywodraeth Cymru a Brexit.....	14
Fframweithiau polisi cyffredin y DU .....	14
Cysylltiadau rhynglywodraethol.....	15
Adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol .....	15
Paratodau dim cytundeb .....	16

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â negodiadau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r rhifyn hwn yn cwmpasu'r cyfnod ers Etholiad Cyffredinol y DU, a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2019.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb pennawd o'r datblygiadau diweddaraf;
- Dadansoddiad manylach o'r datblygiadau allweddol yn yr UE a San Steffan; a
- Dadansoddiad o ymateb Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i'r datblygiadau diweddaraf.

### Crynodeb o'r datblygiadau

**Ar lefel y DU**, arweiniodd yr Etholiad Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr at y Prif Weinidog Johnson yn dychwelyd i'w swydd gyda mwyafrif o 80 sedd yn Senedd y DU. Yn dilyn yr etholiad, pasiwyd y Bil Cytundeb Ymadael yn ei ail ddarlleniad ar 20 Rhagfyr. Mae'n ofynnol i'r ddeddfwriaeth ymgorffori'r Cytundeb Ymadael diwygiedig mewn deddfwriaeth ddomestig, gan alluogi'r DU i adael yr UE ar 31 Ionawr 2020. Mae Prif Weinidog y DU wedi datgan na fydd y DU yn ceisio estyniad i'r cyfnod trosglwyddo, sy'n golygu y bydd angen negodi perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol erbyn 31 Rhagfyr 2020. Bydd yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (DEXEU) yn cau ar 31 Ionawr 2020.

Penodwyd Simon Hart AS i olynu Alun Cairns AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, gyda David Davies AS yn gwasanaethu fel is-weinidog.

**Yn yr UE**, daeth y Comisiwn Ewropeaidd newydd i rym ar 1 Rhagfyr wrth i Ursula Von Der Leyen olynu Jean-Claude Juncker yn Llywydd Comisiwn yr UE. Ni enwebodd y DU Gomisiynydd y DU, gan nodi canllawiau domestig sy'n atal dewis ymgeiswyr ar gyfer uwch benodiadau rhyngwladol yn ystod cyfnod etholiad. Mae'r UE wedi lansio achos tor rheolau yn erbyn y DU. Dywedodd Von Der Leyen wrth Senedd Ewrop ar 18 Rhagfyr y byddai negodi'r berthynas rhwng y DU-UE yn y dyfodol erbyn 31 Rhagfyr 2020 yn anodd dros ben.

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer polisi masnach yr UE, gan gynnwys penodi Prif Swyddog Gorfodi Masnach ac ymrwymiad i arwain yr ymdrechion i ddiweddarau a diwygio Sefydliad Masnach y Byd. Mae'r UE hefyd

wedi cymryd camau i amddiffyn ei hawliau mewn anghydfodau masnach mewn ymateb i atal Corff Apeliadol Sefydliad Masnach y Byd.

Charles Michel sy'n olynu Donald Tusk yn Llywydd Cyngor yr UE ac mae'r Cyngor wedi ailbenodi Michel Barnier yn Brif Drafodwr Brexit ar ran yr UE. Mae'r Cyngor wedi gwahodd y Comisiwn i ddarparu mandad cynhwysfawr drafft ar gyfer perthynas â'r DU yn y dyfodol yn syth ar ôl ei hymadawiad ar 31 Ionawr 2020.

**Yng Nghymru**, dywedodd y Prif Weinidog fod ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddod i gytundeb ar berthynas â'r UE yn y dyfodol erbyn diwedd 2020 yn beryglus a chamarweiniol. Argymhellodd Llywodraeth Cymru na ddylai'r Cynulliad roi cydsyniad i fersiwn y Bil Cytundeb Ymadael o fis Hydref, gan nad yw'r Datganiad Gwleidyddol yn rhoi sicrwydd o berthynas agos rhwng y DU a'r UE a bod hynny'n ei gwneud yn bosibl y bydd sefyllfa 'dim cytundeb' os na cheir cytundeb ynghylch y berthynas yn y dyfodol erbyn diwedd y cyfnod pontio.

## 2. Datblygiadau ar lefel y DU

### Canlyniadau'r Etholiad Cyffredinol

#### Y DU

Enillodd y Blaid Geidwadol **365 sedd yn yr Etholiad Cyffredinol**, a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, gan ennill mwyafrif o 80 sedd yn Senedd y DU. 67.3% oedd y ganran a bleidleisiodd. Enillodd y Blaid Lafur 203 sedd, ac enillodd Plaid Genedlaethol y Alban (SNP) a'r Democratiaid Rhyddfrydol 48 ac 11 sedd, yn y drefn honno. Daliodd Plaid Cymru ei phedair sedd o'r etholiad blaenorol yn 2017. Mae'r Prif Weinidog Johnson yn parhau yn ei swydd wrth i **adroddiadau awgrymu ad-drefnu'r Cabinet yn 2020**. O ran Brexit, cyhoeddodd fod ganddo fandad llethol erbyn hyn, o'r etholiad hwn, i gyflawni Brexit ac y bydd yn anrhydeddu'r mandad hwnnw erbyn 31 Ionawr.

I gael dadansoddiad llawn o ganlyniadau'r Etholiad Cyffredinol yng Nghymru, gweler y blog diweddaraf gan **Ymchwil y Senedd**.

#### Ymatebion gan yr UE a Chymru

Estynnodd Prif Weinidog Cymru ei **longyfarchiadau i Brif Weinidog y DU** ar ei fuddugoliaeth ar Twitter, ond rhybuddiodd fod yn rhaid iddo gofio 'mai dim ond mewn 1 o 4 gwlad y DU mae mwyafrif Ceidwadol.'

Estynnodd Llywydd newydd Comisiwn yr UE, Ursula Von Der Leyen ei llongyfarchiadau i Brif Weinidog y DU, **gan nodi:**

We expect ratification of the Withdrawal Agreement to be ended by January. We are ready to move to the next phase in our relationship. We want our future relationship to be as close as possible.

### Araith y Frenhines a Deddfwriaeth Brexit

**Cynhaliwyd Araith y Frenhines** ar 19 Rhagfyr. Cyflwynodd yr araith gynlluniau ar gyfer nifer o Filiau sy'n darparu pwerau newydd y bydd eu hangen i efelychu deddfwriaeth yr UE yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

Bydd sawl un ohonynt yn disodli Biliau a syrthiodd ar ddiwedd Senedd 2017-19. O'r rhain, mae'r Biliau Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Masnach yn debygol unwaith eto o gynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd y Cynulliad ac o fod angen

cydsyniad deddfwriaethol. Mae Bil yr Amgylchedd newydd hefyd yn debygol o gynnwys darpariaethau o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

Ar yr un diwrnod, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU** y bydd yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (DEXEU) yn cau ar 31 Ionawr 2020.

## Bil y Cytundeb Ymadael

Cyflwynodd y Llywodraeth **Fil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael)** yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Rhagfyr. Mae'r Bil hwn yn ymgorffori'r Cytundeb Ymadael diwygiedig mewn deddfwriaeth ddomestig, gan alluogi'r DU i adael yr UE ar 31 Ionawr 2020.

Pasiwyd y Bil Cytundeb Ymadael gan Dŷ'r Cyffredin ar ei ail ddarlleniad ar 20 Rhagfyr. **Mae'r Llywodraeth yn bwriadu** i holl gamau'r Bil yn Nhŷ'r Cyffredin gael eu cyflawni erbyn diwedd 9 Ionawr.

Mae'r Bil Cytundeb Ymadael yr un fath â'r Bil a gyflwynwyd ym mis Hydref i raddau helaeth. Fodd bynnag, gwnaed nifer o newidiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diddymu swyddogaeth gymeradwyo'r Senedd o ran mandad negodi'r Llywodraeth a'r broses cymeradwyaeth seneddol uwch ar gyfer unrhyw berthynas â'r UE yn y dyfodol;
- Gwahardd gweinidogion y DU rhag cytuno i estyniad i'r cyfnod pontio; a
- Diddymu amddiffyniadau gweithdrefnol i hawliau gweithwyr ar ôl iddynt gael eu trosglwyddo o gyfraith yr UE i gyfraith ddomestig.

Mewn ymateb i Araith y Frenhines, **dywedodd Prif Weinidog Cymru:**

*The PM's self-imposed ticking Brexit clock is dangerous and misleading. He is upping the ante on a no-deal Brexit by the end of 2020, which would be catastrophic for Wales.*

Dywedodd Llywydd Von Der Leyen, llywydd newydd y Comisiwn **wrth Senedd Ewrop** ar 18 Rhagfyr y bydd cwblhau negodiadau erbyn diwedd 2020 yn arbennig o anodd.

## Penodi Simon Hart yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Penodwyd **Simon Hart, AS Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro**, yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru i olynu Alun Cairns AS yn y swydd. **Dywedodd wrth y BBC** ei fod eisiau perthynas gadarnhaol â Chaerdydd. Bydd **David Davies, AS Trefynwy** a chyn-Gadeirydd Pwyllgor Materion Cymru, yn gwasanaethu fel is-weinidog.

## Achos Ilys yn herio dilysrwydd y Cytundeb Ymadael

Mae'r Good Law Project, dan arweiniad Jolyon Maugham QC, wedi **cychwyn achos cyfreithiol** yn erbyn Llywodraeth y DU ynghylch y Cytundeb Ymadael diwygiedig. Mae'r achos yn herio a yw Protocol Gogledd Iwerddon yn mynd yn groes i adran 55(1) o Ddeddf Trethiant (Masnach Drawsffiniol) 2018:

*It shall be unlawful for Her Majesty's Government to enter into arrangements under which Northern Ireland forms part of a separate customs territory to Great Britain.*

Mae Erthygl 4 y **Cytundeb Ymadael diwygiedig** yn cydnabod:

*Northern Ireland is part of the customs territory of the United Kingdom.*

Fodd bynnag, pan fo nwyddau mewn perygl o gael eu symud i mewn i'r Undeb, dylid **cymhwyso cod tollau'r UE:**

*Northern Ireland remains aligned with the EU on goods and applies EU tariffs in Northern Ireland except for movements within the single customs territory of the United Kingdom, but only for as long as Northern Ireland wishes this system to continue.*

Mae'r achos yn debygol o benderfynu felly a yw'r ffaith bod Gogledd Iwerddon yn nhiriogaeth tollau'r DU wrth gymhwyso cod tollau'r UE yn mynd yn groes i Ddeddf Trethiant (Masnach Drawsffiniol) 2018.

Bydd yr achos yn cael ei glywed **ar 10 Ionawr 2020**. Mae Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi wedi llunio **papur briffio ar y deddfwriaeth** sy'n cynnig mwy o wybodaeth.

### 3. Datblygiadau yn yr UE

#### Comisiwn newydd yr UE:

Ar 27 Tachwedd, **cymeradwydd Senedd Ewrop** y Comisiwn newydd o 461 pleidlais i 157 gydag 89 yn ymatal. Dechreuodd y Comisiwn newydd, dan arweiniad cyn **Weinidog Amddiffyn yr Almaen, Ursula Von der Leyen**, ei dymor pum mlynedd ar 1 Rhagfyr. Von der Leyen yw'r fenyw gyntaf i arwain y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r Comisiwn newydd yn disodli Comisiwn Jean-Claude Juncker ac mae'n gyfrifol am arwain y negodiadau Brexit â'r DU.

Mae'r Llywydd Von der Leyen wedi cyhoeddi **Canllawiau Gwleidyddol** ar gyfer y Comisiwn newydd sy'n nodi ei blaenoriaethau a'i chynlluniau ar gyfer gwaith y sefydliad yn y blynyddoedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Bargen Werdd Ewropeaidd, sydd â'r nod o sicrhau mai Ewrop yw cyfandir hinsawdd niwtral cyntaf y byd erbyn 2050.

I gael mwy o wybodaeth am yr effaith y gallai'r Comisiwn newydd ei chael ar Gymru, darllenwch **erthygl blog Ymchwil y Senedd**. Mae'r BBC hefyd wedi **llunio canllaw** ar Gomisiwnwyr unigol.

#### Comisiynydd y DU:

Gan y disgwyliwyd i'r DU adael yr UE ar 31 Hydref 2019, **cadarnhaodd Prif Weinidog y DU** na fyddai'r DU yn enwebu rhywun newydd i fod yn Gomisiynydd yr UE. Fodd bynnag, oherwydd na ddaethpwyd i gytundeb rhwng y DU a'r UE erbyn y dyddiad cau ym mis Hydref, cytunwyd ar drydydd estyniad i Erthygl 50 tan 31 Ionawr 2020. Wrth **gytuno i'r cais**, dywedodd yr UE fod hyn yn golygu y byddai angen i'r DU enwebu Comisiynydd newydd i'r DU.

#### Dewis Comisiynydd y DU

**Ysgrifennodd** darpar Lywydd y Comisiwn, Von der Leyen, at y Prif Weinidog ar 6 Tachwedd i ofyn am enwebai erbyn 11 Tachwedd 2019. Ni chyflwynodd Llywodraeth y DU unrhyw enwebeion cyn diddymu Senedd y DU ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol ar 6 Tachwedd. **Yn ei hymateb** i'r Comisiwn, dywedodd Llywodraeth y DU y byddai'n enwebu Comisiynydd ar ôl Etholiad Cyffredinol 12 Rhagfyr, gan fod **canllawiau domestig yn atal** dewis ymgeiswyr ar gyfer uwch benodiadau rhyngwladol yn ystod cyfnod etholiad (gweler Adran M, paragraff 10).

#### Achos tor rheolau yn erbyn y DU

Yn anhapus â methiant Llywodraeth y DU i fodloni'r telerau y cytunwyd arnynt ar yr estyniad, lansiodd yr UE yr hyn a elwir yn **'achos tor rheolau' yn erbyn y DU** ar 14 Tachwedd. Mae achos tor rheolau yn gamau cyfreithiol ffurfiol y gall yr UE eu cymryd yn erbyn Aelod-wladwriaethau nad ydynt yn dilyn deddfau'r UE. Yn y pen draw, gall yr achos arwain at ddirwyon neu sancsiynau eraill, ond cânt eu datrys cyn iddynt gyrraedd y pwynt hwn fel rheol. Rhoddwyd tan 22 Tachwedd i Lywodraeth y DU ymateb i'r hysbysiad ffurfiol. Methodd ag ymateb a pharhaodd y broses gymeradwyo ar gyfer y Comisiwn heb Gomisiynydd y DU.

#### Cyfarfod diweddaraf Cyngor yr UE

Cyfarfu arweinwyr UE27 ar 12 a 13 Rhagfyr ar gyfer cyfarfod diweddaraf Cyngor yr UE, lle trafodwyd paratoadau ar gyfer y negodiadau ar y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol. **Daeth y Cyngor i'r casgliad:**

- y **byddai Michel Barnier yn cael ei ailbenodi** ar gyfer y negodiadau ynghylch y berthynas yn y dyfodol;
- y **byddai'n rhaid seilio'r berthynas yn y dyfodol ar gydbwysedd o hawliau a**
- **rhwymedigaethau a sicrhau tegwch i'r ddwy ochr**; ac
- y dylai'r Comisiwn gyflwyno i'r Cyngor **fandad cynhwysfawr drafft ar gyfer perthynas â'r DU yn y dyfodol** yn syth ar ôl ei hymadawiad.

Roedd Prif Weinidog y DU wedi cyhoeddi cyn yr uwchgynhadledd **na fyddai yn bresennol**, pe bai'n cael ei ailethol. Penderfynwyd y byddai **Llywydd newydd Cyngor yr UE, Charles Michel**, yn cynrychioli'r DU.

#### Masnach y DU-UE

Cyflwynodd Comisiynydd Masnach newydd yr UE, **Phil Hogan, araith** yn Nulyn ar 6 Rhagfyr. Ar Brexit a'r DU, dywedodd:

The most productive thing the UK government could do at this point is to focus on content, not timing: stop speculating about timelines and focus on the nuts and bolts of a trade agreement with the EU. We are still in the dark as to what type of FTA the UK will ultimately want. So the urgent priority for the next government must be to outline its preferences, and then carefully define its offensive and defensive interests for each stage of negotiations.

[...]

And as I have also said on many occasions before, any deal we strike with

the UK will be far inferior to being a member of the EU. It is regrettable that, even at this late stage, many members of the UK parliament and media still have not woken up to this fact. Unfortunately, the learning curve remains very wide.'

## Masnach yr UE

### Cynigion Comisiwn yr UE

Mae **Canllawiau Gwleidyddol** Llywydd newydd y Comisiwn Von Der Leyen yn cynnig y mesurau masnach canlynol:

- y dylid penodi **Prif Swyddog Gorfodi Masnach newydd** i wella cydymffurfriad a gorfodaeth cytundebau masnach, ac adrodd yn ôl yn rheolaidd i Senedd Ewrop;
- y **bydd pob cytundeb newydd yr UE a gyflawnir yn cynnwys pennod benodol ar ddatblygu cynaliadwy a'r safonau uchaf o ran amddiffyn yr hinsawdd, yr amgylchedd a llafur**, gyda pholisi dim goddefgarwch ar lafur plant; a
- bod **yr UE yn arwain yr ymdrechion ar ddiweddarau a diwygio Sefydliad Masnach y Byd**.

### Atal Corff Apeliadol Sefydliad Masnach y Byd

O 11 Rhagfyr, ni all Corff Apeliadol Sefydliad Masnach y Byd glywed apeliadau newydd. Nid yw'r Corff, y mae angen tri barnwr arno i weithredu, wedi gallu llenwi ei swyddi gwag ers ymddeoliad dau o'i aelodau yn 2019. Rhwystrwyd penodiadau newydd gan Arlywydd Trump yr Unol Daleithiau, sy'n galw am ddiwygio dull datrys anghydfod y Corff. Cyhoeddodd Comisiynydd Masnach newydd yr UE, Phil Hogan, **ddatganiad** mewn ymateb, gan nodi:

This is a regrettable and very serious blow to the international rules-based trade system, which, for the past 24 years, has relied on the WTO's Appellate Body – and dispute settlement generally.

This is a critical moment for multilateralism and for the global trading system. With the Appellate Body removed from the equation, we have lost an enforceable dispute settlement system that has been an independent guarantor – for large and small economies alike – that the WTO's rules are applied impartially.

Cefnogwyd y datganiad gan **Gyngor yr UE yn ei gyfarfod ar 12-13 Rhagfyr**, pan alwodd arweinwyr UE27 i gynigion y Comisiwn i addasu deddfwriaeth gyfredol yr UE i'r sefyllfa newydd gael eu mabwysiadu, yn unol â rheolau Sefydliad Masnach y Byd.

### Ymateb Comisiwn yr UE

Mewn ymateb i atal Sefydliad Masnach y Byd, mae'r Comisiwn wedi cymryd camau i amddiffyn ei hawliau o dan gytundebau masnach ryngwladol. Mae'r Comisiwn **yn cynnig gwelliant** i'w Reoliad Gorfodi, fframwaith deddfwriaethol cyffredin yr UE ar gyfer gorfodi ei hawliau mewn cytundebau masnach ryngwladol.

**Cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion deddfwriaethol llawn** ar 12 Rhagfyr. Yn y cyfamser, mae **grŵp o 54 o wladwriaethau wedi tyngu llw** i barhau i anrhydeddu rheolau Sefydliad Masnach y Byd ag ewylllys da.

### Diwygio'r UE: Cynhadledd ar Ddyfodol Ewrop

Mae Ffrainc a'r Almaen **wedi awgrymu egwyddorion canllaw** ar gyfer diwygio'r UE. Bydd y Cynhadledd ar Ddyfodol Ewrop yn ystyried diwygiadau i lywio dyfodol Ewrop gyda'r bwriad o wneud yr UE yn fwy unedig a sofran. Mae Comisiwn yr UE wedi cynnig y dylid cynnal y Cynhadledd, a **awgrymwyd yn wreiddiol gan Arlywydd Ffrainc Emmanuel Macron** ym mis Mawrth 2019, dros ddwy flynedd rhwng 2020 a 2022.

- Cynhaliwyd trafodaeth gyntaf yng nghyfarfod Cyngor yr UE **ar 12-13 Rhagfyr**, lle cytunwyd y byddai gwaith yn dechrau ar ddiffinio safbwynt y Cyngor ar gynnwys, cwmpas, cyfansoddiad a gweithrediad cynhadledd o'r fath.



## 4. Datblygiadau yng Nghymru

### Bil y Cytundeb Ymadael

**Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd wedi ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit** i ofyn i Lywodraeth Cymru geisio cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad i'r Bil Cytundeb Ymadael. Mae'n nodi yn y llythyr:

The conduct of international negotiations and the approval of international agreements resulting from those negotiations, including the Withdrawal Agreement, is a reserved matter, and will be considered by the UK Parliament, including by MPs representing constituencies in Wales. The implementation of those agreements, where it would otherwise fall within devolved competence, is devolved.

In line with the tests set out above, National Assembly consent is not sought for the obligations in the Withdrawal Agreement, but for the manner in which provisions in this Bill implement those obligations in devolved domestic law.

Argymhellodd Llywodraeth Cymru na ddylid cydsynio i'r Bil Cytundeb Ymadael a gyflwynwyd ym mis Hydref 2019. Mewn **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** a gyflwynwyd ar 23 Hydref, dywedodd Llywodraeth Cymru:

[ei bod] wedi dweud yn glir nad oes modd i ni gymeradwyo'r 'cytundeb' ymadael cyffredinol fel y mae Llywodraeth y DU yn ei argymhell gan nad yw'r Datganiad Gwleidyddol cysylltiedig yn rhoi digon o sicrwydd y bydd y berthynas yn y dyfodol gyda'r UE yn bartneriaeth agos iawn, fel yr amlinellwyd yn ein Papur Gwyn, *Diogelu Dyfodol Cymru*. Mae'r safbwynt hwn wedi'i gymeradwyo'n gyson gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Nid yw'r Cytundeb Ymadael yn rhoi diwedd ar y posibilrwydd o Ymadael Heb Gytundeb. Os na chytunir ar unrhyw berthynas yn y dyfodol mae posibilrwydd o hyd y byddwn yn ymadael heb gytundeb ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.

Ni chafodd y gweinyddiaethau datganoledig y cyfle i ystyried na chyfrannu naill ai at y Cytundeb Ymadael na'r Datganiad Gwleidyddol, ac ni fuom yn rhan ychwaith o'r gwaith i ddatblygu'r cymalau i roi'r agenda ddiwygiedig ar waith.

Ar 24 Hydref, dywedodd **Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn** wrth y Pwyllgor:

We would obviously like a legislative consent motion to pass. If the Welsh Assembly and the Scottish Parliament were to pass those motions, then that would be a very, very good thing. But, ultimately, I think it's just a statement of constitutional reality that treaties, international treaties, are for the UK Government to agree and the UK Parliament to ratify.

### Deddfwriaeth Brexit arall

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi dynodi eto a fydd yn argymhell bod y Cynulliad yn rhoi cydsyniad i deddfwriaeth Brexit arall y DU lle mae'n cynnwys darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ar 4 Tachwedd, dywedodd y **Gweinidog Brexit a'r Cwnsler Cyffredinol** wrth y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol am safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar ba un a ddylid mynd â deddfwriaeth Brexit ddilynol i Gymru drwy Senedd y DU neu drwy'r Cynulliad:

[W]e obviously are looking at what a delayed or a deferred potential exit date means in terms of legislation; there are time points in the year that bring different pressures to bear; the UK Government will respond in particular ways when a new UK Government is elected. So, all of those things are in the mix, and they're all under review, from our point of view. There have been other discussions that we've had here, about whether we would mirror, if you like, what the Scottish Government has said publicly it wishes to do in relation to keeping pace legislation, or continuity legislation, so that Wales can continue to be aligned, in a dynamic way, to European regulation. So, there's a set of considerations going on about how best to achieve that.

### Y Cytundeb Ymadael Diwygiedig - Goblygiadau i Gymru

#### Porthladdoedd a thrafnidiaeth

Rhoddodd **Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn** dystiolaeth i'r Pwyllgor o oblygiadau'r cytundeb diwygiedig rhwng y DU a'r UE ar borthladd Caergybi ar 24 Hydref 2019:

Some people have said that we should have an economic impact assessment. It's difficult, I think, to have an economic impact assessment because there are so many variables in play [...] [W]e absolutely have looked at how we can do everything possible to mitigate any adverse impacts, and also to help business to take advantage of new opportunities as well.

Ar 4 Tachwedd, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru o **Dîm Trefniadau Pontio Ewropeaidd Llywodraeth Cymru** wrth y Pwyllgor:

[W]e've asked some questions about what kind of sectors, what kind of goods are going to be at risk in terms of that flow into the single market, and as yet we haven't had any confirmation about what the UK Government's assessment of those goods is. We've asked them around what kind of processes, what kind of infrastructure might be required if you have regulatory divergence between the island of Ireland and the rest of Great Britain, as could happen under the protocol, and all we've had is, 'Yes, they will need new processes' and 'Yes, there'll be new infrastructure.'

**Dyweddodd Grŵp Porthladdoedd Cymru wrth y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y byddai her fawr i weithredwyr a newid diwylliant mawr iddynt ddod i arfer ag ef.

**Mewn llythyr at y Gweinidog Brexit a'r Cwnsler Cyffredinol** ar 4 Rhagfyr, galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r ffyrdd y mae'n pwysu ar Lywodraeth y DU i gynnal asesiad effaith llawn o'r Cytundeb Ymadael diwygiedig ar borthladdoedd Cymru ac i gyhoeddi diweddariad ar baratodau ar gyfer seilwaith newydd.

### Bwyd a ffermio

Ar 24 Hydref, rhoddodd **Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn** dystiolaeth i'r Pwyllgor o oblygiadau'r Cytundeb Ymadael diwygiedig i fwyd a ffermio yng Nghymru:

[I]f we get the free trade agreement that we want, there won't be any tariffs or quotas. It will be the case that there is the possibility of some sanitary and phytosanitary checks being required, but it's also the case that, in the nature of the best in class free trade agreement that we want, those checks are conducted absolutely minimally because there is confidence in the regulatory integrity of the UK's institutions when it comes to questions like animal health.

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr y sectorau **bwyd a ffermio** ar 4 Tachwedd 2019.

Mewn **llythyr at y Gweinidog Brexit a'r Cwnsler Cyffredinol ar 4 Rhagfyr**, nododd y Pwyllgor bryderon Undeb Amaethwyr Cymru ac NFU Cymru bod y Datganiad Gwleidyddol diwygiedig yn awgrymu trefniadau masnachu mwy llac yn y dyfodol. Yn fwy eang, nododd y Pwyllgor

y pryderon sylweddol a fynegwyd inni gan gynrychiolwyr o'r diwydiant ffermio yn enwedig mewn perthynas ag effaith ansicrwydd parhaus; diffyg deddfwriaeth benodol i Gymru; ac yn fwy cyffredinol ynghylch datblygu polisi'r dyfodol yn y maes hwn, ar ôl Brexit.

Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol flaenoriaethu masnach ddirwystr, yn rhydd rhag rhwystrau tariff a rhwystrau nad ydynt yn ymwneud â thariffau.

## Cytundebau rhyngwladol

Ar 4 Tachwedd, trafododd y **Gweinidog Brexit a'r Cwnsler Cyffredinol** ddull Llywodraeth Cymru o geisio mewnbwn i gytundebau rhyngwladol yn y dyfodol gyda'r Pwyllgor:

With regard to engagement with the UK Government on future economic partnership negotiations, Chair, you will know from previous appearances and references in the Chamber that this has been one of the areas we've been least satisfied with in terms of ensuring that we have a forum and a channel to make sure that our concerns not only are heard, but are reflected in mandates. There has never been the level of agreement from the UK Government to the sorts of principles underpinning that that we would want to see, in particular that the UK Government would commit to not normally proceeding without the agreement of the devolved Governments in relation to devolved matters.

Mewn llythyr i'r Pwyllgor ar 5 Tachwedd, gwnaeth **Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol** sylwadau ynglŷn â'r cynnydd i sefydlu Fforwm Gweinidogol ar y Cyd ar Fasnach:

O dan lywodraeth Boris Johnson, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Rhyngwladol wedi cytuno i sefydlu'r Fforwm Masnach y Gweinidogion ac roedd cynlluniau mewn lle i'r fforwm gwrdd ym mis Hydref. Gohiriwyd y cyfarfod o ganlyniad i'r etholiad cyffredinol. Rwy'n gobeithio na fydd Llywodraeth y DU a ffurfir ar ôl yr etholiad yn cychwyn y gwaith hwn o'r dechrau unwaith eto ac y gallwn adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i gwblhau hyd yma i roi trefniadau rhynglywodraethol ffurfiol mewn lle mor fuan â phosib. Byddaf, wrth gwrs, yn pwysu ar unrhyw Weinidogion newydd o fewn Llywodraeth y DU i symud y gwaith yma yn ei flaen fel mater o frys.

Ar 24 Hydref 2019, gwnaeth **Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn** sylwadau ynglŷn â dull Llywodraeth y DU o gynnwys y sefydliadau datganoledig mewn cytundebau rhyngwladol yn y Pwyllgor:

[T]rade negotiations are international negotiations, and we touched earlier on the reserved competences of the UK Parliament, and, of course, trade negotiations in countries like Canada and Australia and New Zealand are carried out by the Government. But it is important to make sure that we take account of the unique concerns and interests of all of the nations of the United Kingdom, and the best way to do that, I think, is by forging the closest possible relationship with the devolved administrations at every turn.

Ar 18 Rhagfyr, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad **Cytundebau rhyngwladol y DU ar ôl Brexit: Rôl i'r Cynulliad**. Mae'r adroddiad yn cynnig model diwygiedig ar gyfer gwaith craffu'r Cynulliad ar gytundebau rhyngwladol. Mae'n argymhell:

bod unrhyw gynigion ar gyfer proses ddiwygiedig o graffu gan Senedd y DU yn ymgorffori'r angen i ystyried barn y Cynulliad cyn cadarnhau cytundeb.

Ar 4 Rhagfyr, **trafododd y Cynulliad gynnig Plaid Cymru** y dylai seneddau datganoledig y DU gael fetto dros faterion masnach sydd â'r potensial i effeithio ar feysydd datganoledig. Diwygiwyd y cynnig gan y Llywodraeth i alw ar i'r sefydliadau datganoledig chwarae rhan ffurfiol mewn negodiadau ar gytundebau rhyngwladol pan fydd cymhwysedd datganoledig yn weithredol, gan wneud cais ar bob cam o'r negodiadau a chael cefnogaeth statudol, ac i alw ar i gonfensiwn cyfansoddiadol y DU gyfan gael ei sefydlu i sicrhau bod trefniadau cyfansoddiadol yn y dyfodol yn adlewyrchu hyn. Cymeradwyodd y Cynulliad y cynnig fel y'i diwygiwyd.

### Strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru a Brexit

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Pwyllgor ei **Adroddiad ar Strategaeth Ryngwladol Ddrafft Llywodraeth Cymru**. Nododd y Pwyllgor effaith yr ansicrwydd yn sgil Brexit ar y strategaeth ryngwladol ond nododd na ddylai hyn atal Llywodraeth Cymru rhag bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyfres o "dargedau mesuradwy a phwyntiau gweithredu a fydd yn gorwedd o dan y strategaeth derfynol". Disgwylir i'r strategaeth ryngwladol gael ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2020.

### Fframweithiau polisi cyffredin y DU

**Rhoddodd Prif Weinidog Cymru yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygu fframweithiau cyffredin mewn llythyr ar 6 Rhagfyr.** Mae hwn yn nodi y bydd angen tua 40 o fframweithiau ar gyfer Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r holl fframweithiau fod ar waith erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, dywed hefyd na ellir cwblhau fframweithiau tan fod perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol wedi ei hegluro. Disgwylwyd i bedwar fframwaith drafft amlinellol ar gyfer Cymru gael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019. Gohiriwyd y rhain oherwydd yr Etholiad Cyffredinol.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar **Fframweithiau polisi cyffredin: Gwaith craffu gan y Cynulliad** ym mis Rhagfyr 2019. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig model craffu ar gyfer fframweithiau cyffredin i'r Cynulliad ei ystyried. O dan y model hwn, byddai'r Cynulliad yn ceisio ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i beidio â dod i unrhyw gytundeb fframwaith tan fod pwyllgor wedi adrodd ar y fframwaith drafft neu fod y dyddiad terfyn ar gyfer adrodd wedi mynd heibio.

Yn dilyn cyfarfod Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ar 10 Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Brexit a'r Cwnsler Cyffredinol **ddatganiad** yn dweud:

[Y]r hyn sy'n peri pryder yw effaith bosibl datganiadau croes gan Lywodraeth y DU ar ei hymrwymiad i safonau cyffredin mewn perthynas â dadreoleiddio. Yng nghyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) byddwn yn adolygu sut y gall trefniadau'r Fframweithiau Cyffredin gyflawni eu hamcanion gwreiddiol o ganlyniad i'r tensiwn hwn.

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y Gweinidog Brexit a'r Cwnsler Cyffredinol i ofyn sut y mae'r defnydd o gytundebau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gysylltiedig â swyddogaeth y Cynulliad o ran rhoi cydsyniad deddfwriaethol. **Yn ei ateb**, dywedodd y Gweinidog:

Intergovernmental agreements are by their nature, and should remain, the responsibility of the relevant executives, and should not be subject to consent by legislatures. The Welsh Government enters into a range of agreements, both legally binding and non-legally binding, and it would not be constitutionally appropriate given the separation of powers for the Assembly to consent to those, although of course Members can and do scrutinise them.

### Cysylltiadau rhynglywodraethol

#### **Rhoddodd Prif Weinidog Cymru yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gysylltiadau rhynglywodraethol mewn llythyr ar 6 Rhagfyr:**

[I]n general terms, relations with the UK Government began to deteriorate after Boris Johnson became Prime Minister. Examples of this include reduced access to information about no deal planning and a lack of formal Ministerial engagement on the joint Intergovernmental Relations Review (despite greater progress at official level on the latter as a result of positive discussions with the previous Chancellor of the Duchy of Lancaster).

Aeth ymlaen i ddweud:

It is very unfortunate that no meeting of the Joint Ministerial Committee (Plenary) has taken place for almost a year so we have been unable to jointly assess the state of relations at head of government level.

### Adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol

Ar 4 Tachwedd 2019, rhoddodd y **Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit** yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd tuag at yr adolygiad cysylltiadau rhynglywodraethol:

[T]he intention had been that we would be in a position by the end of September to have a detailed plan, together with a mapping of the existing inter-governmental ministerial fora and a set of proposed reforms to those, a mechanism for discussion that would introduce an element of independence into dispute resolution mechanisms and, lastly, of the major issues certainly, a set of principles for resolving the role of devolved governments and legislatures in international agreements. For reasons which I think are obvious at this point, that isn't a timetable that's been met.

Ar 24 Hydref, gwnaeth **Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn** sylwadau ynglŷn â chysylltiadau rhynglywodraethol ar ôl Brexit yn y Pwyllgor:

I wouldn't want to pre-empt any of the conclusions of that conversation or the inter-governmental review [...] I do think that there is a case—again, I don't want to pre-empt the conclusions—for trying to make sure that we have regular Minister-to-Minister fora that enable all of these issues to be, in the way that you suggest, agreed and transparently committed to.

## Paratodau dim cytundeb

### **Mewn llythyr i'r Pwyllgor ar 6 Rhagfyr, dywedodd Prif Weinidog Cymru:**

The risk of no deal at the end of January is much reduced but, as it remains the legal default and we cannot be completely reassured that it will not happen, proportionate no deal preparations have continued since the dissolution of Parliament on 6 November. These have included consideration of whether any of our preparations need to be amended in light of a January exit date, continuing to engage with the UK Government on preparedness projects with a devolved intersect and confirmation of the priority areas where we will want to engage with the UK Government in the event of a January No Deal Brexit scenario.

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr sectorau allweddol o economi Cymru a gwasanaethau cyhoeddus ar baratodau ar gyfer Brexit mewn sesiynau tystiolaeth ar **4 Tachwedd** ac **11 Tachwedd**.

**Mewn llythyr at y Gweinidog Brexit a'r Cwnsler Cyffredinol** ar 4 Rhagfyr nododd y Pwyllgor fod "paratodau ar gyfer senario 'dim bargaen' bosibl yn y sector **bwyd a ffermio** ym mis Hydref yn well, ac yn fwy datblygedig, nag yr oeddent wedi bod yn y cyfnod cyn y dyddiad gadael gwreiddiol fis Mawrth 2019". Nododd y Pwyllgor hefyd fod cynrychiolwyr o feysydd **iechyd, addysg uwch a llywodraeth leol** wedi rhoi "rywfaint o sicrwydd" ynghylch eu parodrwydd.

Fodd bynnag, dywedodd y Pwyllgor "[m]ynegodd mwyafrif y rhanddeiliaid y buom yn siarad â hwy bryderon penodol ynghylch effaith 'dim bargaen'" gan nodi ei fod yn "parhau i fod â phryderon sylweddol am ganlyniad o'r fath a goblygiadau niweidiol hynny i Gymru".